

Dydd Mercher, 19 Hydref 2022

Hysbysiad o gyfarfod:**Cyngor Sir****Dydd Iau, 27ain Hydref, 2022 at 2.00 pm,
Council Chamber - Council Chamber****AGENDA**

Cynhelir gweddïau cyn y cyfarfod Cyngor am 13.50pm. Mae croeso i bob aelod ymuno â'r Cadeirydd ar gyfer hynny os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Eitem No	Eitem	Tudalennau
1.	Ymddiheuriadau am absenoldeb	
2.	Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Medi 2022	1 - 6
3.	Datganiadau o Fuddiant	
4.	Cwestiynau gan y Cyhoedd	
5.	Cyhoeddiad y Cadeirydd	7 - 8
6.	Adroddiadau'r Cyngor:	
6.1.	CYNLLUN CYMUNEDOL A CHORFFORAETHOL	9 - 34
6.2.	YMATEB I'R ANGEN BRYG AM ANHEDDAU	To Follow
6.3.	ADRODDIAD BLYNYDDOL 2021/22 Y CYFARWYDDWR GOFAL CYMDEITHASOL, DIOGELU AC IECHYD	35 - 182
6.4.	ADRODDIAD GWERTHUSO DIOGELU Ebrill 2021 – Mawrth 2022	183 - 220
6.5.	PENODI I GORFF ALLANOL – CYNGOR IECHYD CYMUNED ANEURIN BEVAN	221 - 222

7. Cynigion i'r Cyngor:

7.1. Cyflwynir gan y Cyngorydd Sir Jayne McKenna

Yn dilyn datganiad y Cyngor ym mis Medi am Ardrethhi Anomestig, mae'r Cyngor hwn yn:

- Cydnabod y storm berffaith o heriau sy'n wynebu busnesau canol trefi yn Sir Fynwy y gaeaf hwn
- Galw ar y weinyddiaeth i ystyried camau i annog siopa lleol yn y cyfnod cyn y Nadolig 2022, yn cynnwys parcio am ddim a thrafnidiaeth gyhoeddus am ddim ar benwythnosau.

8. Cwestiynau gan Aelodau

8.1. Gan y Cyngorydd Sir Jan Butler i'r Cyngorydd Sir

Pa sylwadau a wnaeth y weinyddiaeth i Lywodraeth Cymru am ddiogelwch ffordd ar yr A4042?

8.2. Gan y Cyngorydd Sir Paul Pavia i'r Cyngorydd Sir Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd

A fydd yr Aelod Cabinet yn gwneud datganiad am adolygiad sir-gyfan o feysydd parcio y mae'r Cyngor yn eu rheoli?

8.3. Gan y Cyngorydd Sir Paul Pavia i'r Cyngorydd Sir Rachel Garrick, Aelod Cabinet dros Adnoddau

Pa asesiad a wnaeth yr Aelod Cabinet ynghylch effaith cynnydd mewn prisiau ynni ar gyllidebau ysgol eleni?

8.4. Gan y Cyngorydd Sir Christopher Edwards i'r Cyngorydd Sir Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd

A all yr aelod cabinet hysbysu'r cyngor am gynnydd gyda'r cais am gyllid grant i Lywodraeth Cymru yn 2022/23 ar gyfer cynllun llwybrau diogelach mewn cymunedau ar gyfer gwaith gwella diogelwch ffordd ar gyfer Heol St Lawrence (rhwng Lôn Kingsmark a chylchfan y Cae Râs).

8.5. Gan y Cyngorydd Sir Lisa Dymock i'r Cyngorydd Sir Sara Burch, Aelod Cabinet dros Gymunedau Cynhwysol ac Actif

Pa gamau gweithredu mae'r weinyddiaeth yn eu cymryd i wella cyfleusterau ar gyfer pobl ifanc yn ardal Cil-y-coed yn y 12 mis nesaf?

9. Y Cyfarfod Nesaf – 1 Rhagfyr 2022

Paul Matthews
Prif Weithredwr

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

Cynghorwyr Sir:

Laura Wright
Tony Kear
Catrin Maby
Jan Butler
Ian Chandler
Sara Burch
Alistair Neill
Su McConnel
Mary Ann Brocklesby
Fay Bromfield
Jane Lucas
Emma Bryn
Peter Strong
Meirion Howells
Paul Griffiths
Jackie Strong
Rachel Garrick
Maria Stevens
Steven Garratt
Angela Sandles
Ben Callard
John Crook
Tomos Davies
Dale Rooke
Catherine Fookes
Sue Riley
Jayne McKenna
Jill Bond
Louise Brown
Lisa Dymock
Tony Easson
Christopher Edwards
Martyn Groucutt
Simon Howarth
Richard John
David Jones
Penny Jones
Malcolm Lane
Phil Murphy
Paul Pavia
Maureen Powell
Frances Taylor
Tudor Thomas
Armand Watts
Ann Webb
Buckler

Gwybodaeth Gyhoeddus

Mynediad i gopiâu papur o agendâu ac adroddiadau

Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

Edrych ar y cyfarfod ar-lein

Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

Y Gymraeg

Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn yn barchus i chi roi rhybudd digonol i ni er mwyn darparu ar gyfer eich anghenion.

Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

Ein diben

Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth

Amcanion y gweithiwn tuag atynt

- Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl
- Sir lewyrchus a chysylltiedig
- Cynyddu i'r eithaf botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- Llesiant gydol oes
- Cyngor gyda ffocws ar y dyfodol

Ein Gwerthoedd

Bod yn agored. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

Tegwch. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwranddo ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

Hyblygrwydd. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

Gwaith Tim. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatrysyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.

Caredigrwydd – Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a'r cysylltiadau sydd gennym â'n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.